# Grŵp Trawsbleidiol ar gyfer Angladdau a Phrofedigaeth

2 Ebrill 2014

# Cofnodion y Cyfarfod Blynyddol

**Eitem 1: Ymddiheuriadau a Phresenoldeb**

Yn bresennol:

Mark Isherwood AC (Cadeirydd)
William Graham AC
Rhodri Glyn Thomas AC
Darren Millar AC
Russell George AC
Roy Folland
Alan Slater
Nigel Lymn Rose
Simon Fisher
Philip Blatchley
Janette Bourne
Lorraine Barrett
David Beamer (Ysgrifennydd)

Ymddiheuriadau:

Andrew RT Davies AC
Janice Gregory AC
Antoinette Sandbach AC
Janet Finch-Saunders AC
Paul Davies AC
Bethan Jenkins AC
Robin Moulter
Martin Birch

**Eitem 2: Cymeradwyo'r cofnodion**

Derbyniwyd cofnodion y cyfarfod diwethaf.

**Eitem 3: Ethol swyddogion**

Etholwyd y swyddogion a ganlyn:

Mark Isherwood AC – etholwyd yn Gadeirydd.
David Beamer – etholwyd yn Ysgrifennydd.

**Eitem 4: Y wybodaeth ddiweddaraf**

Cytunwyd i roi'r wybodaeth ddiweddaraf gyda'r eitemau perthnasol ar yr agenda.

**Eitem 5: Safleoedd claddu yng Nghymru**

Adolygodd y grŵp ymateb gan y Prif Weinidog, dyddiedig 16 Rhagfyr 2013. Cytunwyd y byddai'r ymateb yn cael ei anfon at David Melding AC ar gyfer cael ei sylwadau. Ni fyddai unrhyw gamau pellach yn cael eu cymryd ar hyn o bryd.

**Eitem 6: Cyllid gan y llywodraeth / ffynonellau eraill ar gyfer angladdau, gan gynnwys y gronfa gymdeithasol a cheisiadau am dalu ymlaen llaw**

Cafwyd trafodaeth ynghylch y diffyg rhwng y taliadau ar gyfer angladdau o'r gronfa gymdeithasol a chost angladd syml. Edrychwyd ar y posibilrwydd o ddefnyddio benthycwyr diwrnod cyflog i dalu'r diffyg. Amlinellodd yr Ysgrifennydd gwestiwn seneddol ar y pwnc, a gyflwynwyd gan Paul Maynard AS, a'r ymateb gan Iain Duncan Smith AS. Dywedodd Alan Slater y gallai Cymdeithas Genedlaethol y Trefnwyr Angladdau gynnal pôl piniwn ymhlith ei haelodau yng Nghymru ar y gronfa gymdeithasol. Cytunodd y Cadeirydd i gynnwys y gwaith ymchwil hwn mewn llythyr sydd i gael ei anfon at Iain Duncan Smith AS.

**Eitem 7: Yr ymgyrch Cymdeithas Masnach a Chod Ymarfer - Y gefnogaeth i Ddatganiad Barn a'i eiriad**

Amlinellodd y Cadeirydd yr ymatebion a gafwyd i lythyr a anfonwyd ganddo at 57 o randdeiliaid yn y sector cyhoeddus ynglŷn â pha mor bwysig oedd bod Trefnwyr Angladdau yn glynu at God Ymarfer. Cytunwyd i anfon llythyrau cydnabod at yr ymatebwyr.

Trafodwyd ymateb i lythyr a anfonwyd gan y Cadeirydd at Mark Drakeford AC, dyddiedig 1 Ebrill 2014. Cytunwyd y dylid anfon llythyr at Mr Drakeford i ymdrin â materion a godwyd yn ei lythyr, gan gynnwys y Cynllun Cymrodeddu Angladdau, Siarter yr ICCM ar gyfer Pobl sydd Mewn Galar, a'r ymateb a gafwyd gan Steve Webb ar rannu'r Cod Ymarfer. Soniodd Janette Bourne am waith CRUSE, a phwysigrwydd sicrhau y caiff pobl sydd mewn galar y profiad gorau ar adeg mor anodd yn eu bywydau. Dosbarthodd Ms Bourne gopïau o'r llyfryn ar Safonau y Gwasanaeth o ran Gofal mewn Profedigaeth.

**Eitem 8: Oedi rhwng marwolaeth ac angladd/amlosgiad, gan gynnwys yr oedi a achosir gan alwadau gan gorffdai'r GIG i weld y Ffurflen Werdd, casglu tystysgrif farwolaeth a threfnu apwyntiadau â Chofrestryddion**

Nododd y Cadeirydd ymateb a gafwyd gan Mark Drakeford AC, dyddiedig 6 Ionawr 2014, ar oedi o ran Ffurflenni Gwyrdd. Dywedodd yr Ysgrifennydd ei fod wrthi'n cysylltu â gweision sifil i drefnu'r cyfarfod arfaethedig y sonnir amdano yn yr ymateb.

Dywedodd y Cadeirydd y byddai ef yn ymateb i lythyr dyddiedig 7 Chwefror 2014 gan Jane Ellison AS, Gweinidog yn Adran Iechyd San Steffan, ar roi'r ffurflenni gwyrdd, er mwyn darparu adborth gan y Grŵp.

**Eitem 9: Unrhyw fater arall**

Cytunodd yr Ysgrifennydd i gysylltu â'r Ganolfan Cyngor ar Bopeth i ofyn iddynt fod yn bresennol mewn cyfarfod o'r Grŵp Trawsbleidiol hwn yn y dyfodol.

Cododd Alan Slater y mater o newidiadau o ran y polisi Rhoi Organau yng Nghymru. Amlinellodd Darren Millar AC y newidiadau o ran y polisi yn hyn o beth, a nododd y byddai'n codi'r pryderon a fynegwyd gan y Grŵp, gyda'r Gweinidog perthnasol.

**Eitem 10: Dyddiad y cyfarfod nesaf**

I'w gadarnhau.